

# PWYLLGOR COFRESTRU A THRWDDEDU

(O bell drwy Teams)

**Aelodau'n Bresennol:**

**Dydd Iau, 12 Tachwedd 2020**

**Cadeirydd:** Councillor S.Paddison

**Is-gadeirydd:** Councillor D.Whitelock

**Cynghorwyr:** A.P.H.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard,  
C.J.Jones, H.Jones, J.Jones, J.Miller a/ac  
R.Mizen

**Swyddogion yn  
bresebol:** N.Chapple, M.Shaw, N.Headon

---

## 1. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 2. **TRWYDDEDU GYRRWR CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - ACHOS 1**

Tynnwyd yr eitem hon oddi ar yr agenda.

## 3. **TRWYDDEDU GYRRWR CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - ACHOS 2**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried camau gweithredu priodol yn unol â gyrrwr trwyddedig, lle'r oedd y gyrrwr wedi cael euogfarn gyrru a rhybudd gan yr heddlu fel a manylwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Rhoddwyd amser i'r aelodau ddarllen y Cofnodion PASM preifat a gylchredwyd cyn y cyfarfod.

Nid oedd yr aelodau'n gallu dod i benderfyniad a gofynnwyd am wybodaeth bellach mewn perthynas â'r achos er mwyn gwneud penderfyniad.

Roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

4. **TRWYDDEDU GYRRWR CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - ACHOS 3**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a oedd angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â thrwydded bresennol y gyrrwr ar ôl clywed pob cyflwyniad, ac fel y manylir yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.

Roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod.

Gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth am Ardystiadau MS90, er gwybodaeth yn unig.

**PENDERFYNWYD:** Bydd y Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat yn derbyn dau rybudd ar wahân i'w roi gan y Rheolwr Trwyddedu.

**CADEIRYDD**